**Papur y Bwrdd (19)015**

**Papur y Bwrdd i'w Nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 22 Chwefror 2019

---

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Gillian Baranski
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Ann Keane
Ellen Donovan
Charlotte Thomas
Helena Bird

**Yn mynychu:**

Piers Bisson
Simon Brindle
Jo-Anne Daniels
Amelia John
Helen Morris
Ajhar Miah
Nina Durant

Ysgrifenyddiaeth:
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Des Clifford

### 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod a chyflwyno Aelod y Bwrdd Cysgodol, Charlotte Thomas. Mae Charlotte yn un o dri aelod o'r Bwrdd Cysgodol a fydd yn mynd i'r cyfarfodydd yn eu tro.

### 2. Diwygio'r cwricwlwm

2.1 Datganodd Ann Keane fuddiant ychwanegol ac atgoffa'r Bwrdd ei bod yn aelod o'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar Ddiwygio'r Cwricwlwm.

2.2 Rhoes Tracey Burke y newyddion diweddaraf am ddiwygio'r cwricwlwm, a ganolbwyntiodd ar paham, beth, sut a'r risgiau allweddol.

2.3 Dywedodd Tracey fod ar Gymru angen system addysg y gellir ymfalchïo ynddi, ond bod angen moderneiddio'r system gyfredol i gyflawni hyn. Mae cwricwlwm Cymru dros 30 mlwydd oed a rhaid iddo allu ymateb yn briodol i heriau'r 21ain Ganrif

2.4 Mae cwricwlwm gweddnewidiol wrth wraidd ein gwaith i ddiwygio addysg drwyddi draw. Mae pedwar amcan hwyluso'n ysgogi newid i'r system:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau atebolrwydd ac asesu cadarn i ategu system hunanwella i ysgolion.

2.5 Trafododd y Bwrdd y risgiau allweddol a chytuno ar bwysigrwydd:

- Cyfathrebu yn y ffordd iawn
- Sicrhau cefnogaeth y rhanddeiliaid allweddol
- Alinio pob un o elfennau'r rhaglen
- Deddfwriaeth, rhywbeth a fydd yn arbennig o heriol gan fod popeth yn gysylltiedig,
- Ariannu Ysgolion

2.6 Cyflwynodd Tracey gynllun allweddol ac amserlen ar gyfer datblygu a chyflwyno fframwaith newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, a ddangosodd fod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn o ran cyhoeddi'r cwricwlwm drafft yn Ebrill 2019.

2.7 Croesawodd y Bwrdd y newyddion hyn a llongyfarch pawb sy'n ymwneud â'r gwaith da hwn.

## 3. Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)

3.1 Ymunodd Piers Bisson a Simon Brindle â'r cyfarfod.

3.2 Amlinellodd Piers y sefyllfa bresennol ac esbonio bod yr UE wedi cadarnhau nad yw'r "backstop" i fod yn barhaol, ond ei fod yn anfodlon ar hyn o bryd edrych o'r newydd ar y ddeddfwriaeth ar y mater hwn.

3.3 Bydd Prif Weinidog y DU yn gwneud datganiad i Senedd y Deyrnas Unedig ar y cynnydd y mae wedi'i wneud ar 26 Chwefror i ganiatáu i ASau trafod y mater ar 27 Chwefror.

3.4 Dywedodd Piers fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Pwyllgor Cabinet newydd a grŵp swyddogion cysylltiedig y caiff y Prif Weinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru eu gwahodd yn rheolaidd iddo.

3.5 Amlinellodd Piers y cynnydd gyda phedair elfen allweddol o waith.

(1) Prosiectau parodrwydd ledled y DU
(2) Offerynnau Statudol
(3) Argyfyngau Sifil
(4) Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru

3.6 Tanlinellodd Piers fod gwefan 'Paratoi Cymru' bellach ar waith ac roedd hyn yn anelu at helpu busnesau a'r cyhoedd i baratoi a deall lle bo ganddynt fuddiant o bosibl.

3.7 Dywedodd Piers fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad ar waith Brexit. Mae'r adroddiad yn weddol gadarnhaol a chefnogol ac fe gaiff ei gyhoeddi. Cafwyd trafodaeth am waith ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd os bydd Brexit heb gytundeb.

3.8 Rhoes Simon y newyddion diweddaraf am waith polisi yn y dyfodol. Oherwydd yr ansicrwydd roedd yn anodd iawn rhagweld y goblygiadau i Lywodraeth Cymru yn y tymor byr a'r tymor hir.

## 4. Gwella Galluogrwydd Polisi yn Llywodraeth Cymru

4.1 Ymunodd Jo-Anne Daniels, Pennaeth y Proffesiwn Polisi ac Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr y Dyfodol a Gwneud Polisi Integredig â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r gwaith ar wella Galluogrwydd Polisi. Dywedodd Jo-Anne Daniels iddi ysgwyddo rôl Pennaeth y Proffesiwn Polisi ym mis Mai 2018. Mae tîm newydd yn cael ei sefydlu yn dwyn ynghyd swyddi sy'n arwain ar feithrin galluogrwydd polisi a chefnogi'r proffesiwn polisi gyda swyddi'n, cefnogi cydweithwyr ar draws y llywodraeth i helpu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ennill ei phlwyf.

4.2 Dywedodd Jo-Anne fod camau gweithredu o amgylch tair thema eang yn cael eu cynnig a bod grŵp o gydweithwyr polisi sydd â diddordeb mewn Gwella Galluogrwydd Polisi yn glust i wrando ar gyfer y gwaith. Mae'r themâu eang (a amlinellir ym mhapur y Bwrdd) yn ymdrin â:

- Meithrin ymdeimlad o broffesiwn:
- Galluogrwydd Polisi Llywodraeth Cymru:

- Meithrin rhwydweithiau allanol:

4.3 Dywedodd Jo-Anne fod Fframwaith Datblygu Proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes polisi wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth y DU. Mae'n disgrifio'r daith o wybodaeth sylfaenol i arweinydd medrus ar draws 18 o feysydd sgiliau, gan ddarparu canllaw ar gyfer datblygiad personol, proffesiynol a datblygu gyrfa. Er bod elfennau ar y fframwaith hwn sy'n ddefnyddiol, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio o fewn cyd-destun gwahanol, gan gynnwys o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.4 Er mwyn llywio'r gwaith ar wella galluogrwydd gwneud polisi, bwriedir cynnal Adolygiad Galluogrwydd ysgafn. Bydd hyn yn golygu cyfweld Gweinidogion, Cynghorwyr Arbennig, staff a rhanddeiliaid allanol ar beth yw cryfderau Llywodraeth Cymru o ran gwneud polisi a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Bydd hyn yn llywio cynllun gweithredu; fel rhan o'r adolygiad, caiff Fframwaith Datblygu Polisi'r DU ei ystyried ac fe gaiff elfennau perthnasol a gwerthfawr eu hymgorffori yn fframwaith Llywodraeth Cymru.

4.5 Esboniodd Jo-Anne fod y Prif Gynghorydd Gwyddonol wedi bod yn Datblygu cynnig, ochr yn ochr â'r gwaith ar alluogrwydd polisi, i sefydlu nifer bach o seminarau uchel eu proffil bob blwyddyn a fyddai'n hybu trafodaeth a hwyluso cyfnewid syniadau mewn ffordd ragweithiol. Byddai'r seminarau arfaethedig yn dod â chydweithwyr ynghyd o Lywodraeth Cymru, prifysgolion Cymru, AB, a diwydiant i ystyried ystod o bynciau lle y gellid defnyddio ymchwil a data academaidd a/neu fasnachol i wella a herio'r sylfaen dystiolaeth mewn meysydd polisi allweddol. Byddai'r seminarau'n caniatáu i swyddogion polisi fanteisio ar y syniadau academaidd gorau ym maes peirianneg, gwyddoniaeth, cyfrifiadura, mathemateg, gwyddorau cymdeithasol a'r gyfraith ac yn cynnig cyfleoedd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud polisi.

4.6 Croesawodd y Bwrdd y newyddion hyn; cydnabu bwysigrwydd cryfhau galluogrwydd polisi ac roedd yn falch o'r ffordd yr oedd y gwaith hwn wedi datblygu.

**Papur y Bwrdd (19)015**

## 5. Adroddiad Cyllid

5.1 Cyflwynodd Gawain Evans yr Adroddiad Cyllid sy'n ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Ionawr 2019 (mis 10) Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2018-19, sef, ar gyfer y cyfnod hwn, ac am y dyfodol, Ail Gyllideb Atodol 2018-19 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 5 Chwefror 2019.

5.2 Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar dabl 4 a Chronfeydd Wrth Gefn Cymru. Nodwyd bod y gronfa wrth gefn yn cynnwys bron y swm y caniateir i Lywodraeth Cymru ei gario drosodd - trafodwyd opsiynau i oresgyn y mater hwn, gan gynnwys cynyddu'r gronfa wrth gefn ei hun ac ailbroffilio benthyca.

5.3 Esboniodd Gawain ymhellach fod Llywodraeth Cymru'n rhan o gynllun rheoli arian Trysorlys Ei Mawrhydi. Bob mis mae adrannau'r llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu rhestru yn ôl pa mor gywir yw eu rhagolygon arian parod yn erbyn yr alldro gwirioneddol; ar ddiwedd Rhagfyr 2018 roedd Llywodraeth Cymru yn ail ar y rhestr.

5.4 Trafododd y Bwrdd y gwariant diwedd blwyddyn a phwysigrwydd proffilio. Cytunodd y Bwrdd y dylid ychwanegu adran ar bensiynau fel rhan o'r adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU 1** – diweddariad ar y cynnydd yn y cyllid ar gyfer costau pensiwn i'w ddarparu yn y Bwrdd nesaf.

## 6. Cynllun y Prosiect Risg

6.1 Ymunodd Helen Morris ac Ajhar Miah â'r cyfarfod i gyflwyno Cynllun Prosiect sy'n nodi camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan adolygiad cynghorol Archwilio Mewnol o arferion rheoli risg yn Llywodraeth Cymru.

6.2 Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru greu fframwaith mwy cadarn a'i gyplysu ag arferion gorau, sef un o argymhellion allweddol yr adroddiad.

6.3 Mae wyth o dasgau hanfodol wedi'u nodi i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn:

- Tasg 1: Nodi canlyniadau disgwyliedig y prosiect
- Tasg 2: Dyrannu adnodd ychwanegol i wella'r ffordd o reoli risg
- Tasg 3: Datblygu datganiadau ar yr awydd am risg
- Tasg 4: Diweddaru'r polisi ar risg
- Tasg 5: Sefydlu'r dull gweithredu cyffredin ar gyfer rheoli risg

- Tasg 6: Adolygiad Canol Cyfnod o'r prosiect
- Tasg 7: Hyfforddi swyddogion a chodi ymwybyddiaeth
- Tasg 8: Cau'r prosiect

6.4 Trafododd y Bwrdd beth y gallent ei wneud i gefnogi'r gwaith hwn ac awgrymu y byddai gweithdy ar yr awydd am risg. Cytunodd y Bwrdd fod angen ymchwilio ymhellach i hyn.

6.5 Gofynnodd y Bwrdd a oedd dyddiadau'r llinell amser yn gyson â phwysigrwydd y gwaith hwn. Cytunodd Helen Morris i adolygu ac ymchwilio i weld a fyddai modd cyflymu unrhyw feysydd.

**CAM GWEITHREDU 2:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gytuno â'r Swyddog Gwella Risg ar amlder a natur trafodaethau yn y dyfodol gan y Bwrdd am risg.
**CAM GWEITHREDU 3:** Helen Morris i adolygu'r llinell amser i sicrhau bod y dyddiadau allweddol yn adlewyrchu brys y gwaith hwn.
**CAM GWEITHREDU 4:** Helen i drafod y defnydd o'r labordy dysgu gyda Natalie Pearson.

## 7. Y newyddion diweddaraf am yr ymgyrch Urddas a Pharch

7.1 Ymunodd Nina Durant â Natalie Pearson i roi trosolwg o'r ymgyrch Urddas a Pharch.

7.2 Esboniodd Natalie fod yr ymgyrch hon wedi deillio o ganlyniadau'r Arolwg Pobl lle'r oedd yr Ysgrifennydd Parhaol am sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu yn y sefydliad. Byddai'r ymgyrch hefyd yn cydategu gwaith ym maes cadernid, sy'n bwysig iawn o gofio'r pwysau ychwanegol ynghylch cydbwyso gwaith y busnes arferol a Brexit.

7.3 Dywedodd Natalie fod deall parch yn y gweithle yn bwysig ac yn enwedig y gwahaniaeth rhwng parch haeddiannol a pharch sy'n gorfod cael ei ennill; roedd awyrgylch parchus yn y gweithle'n gofyn am gydbwysedd o'r ddau.

7.4 Rhoes Natalie drosolwg o negeseuon yr ymgyrch, y bwriad i lansio'r ymgyrch ac amlinellu'r pedwar maes allweddol a fydd yn hanfodol i newid ymddygiad yn y sefydliad.

- Annog – Rhoi'r arwyddion cywir
- Galluogi – ei gwneud yn haws i bobl wneud y peth iawn
- Dangos esiampl – arwain y gwaith
- Ymgysylltu – cael pobl i chwarae rhan

7.5 Cytunodd y Bwrdd ei bod yn allweddol cael staff i gymryd rhan mewn sgyrsiau agored a thrafod Atebion arfaethedig gan gynnwys Hyrwyddwyr Amrywiaeth, ochr yr Undebau Llafur, partneriaid busnes Adnoddau Dynol a chynghorwyr achosion, y rhwydwaith staff.

7.6 Croesawodd y Bwrdd yr ymgyrch hon ac roedd yn falch y caiff ei lansio ar 1 Mai.

## 8. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Eitemau'r Is-bwyllgor

8.1 Rhoes Ann Keane drosolwg o'r cyfarfod ARaC diwethaf a dweud eu bod wedi cytuno ar ddull gweithredu mwy systematig ar gyfer adrodd ar gyfer ARaCs y Grŵp. Dywedodd ymhellach fod adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol wedi cael ei gylchredeg i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, a dweud y câi RMIP ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

8.2 Rhoes Jeff Farrar drosolwg o'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth - roedd hyn yn cynnwys papur ar gynnig tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil y cytunwyd arno. Bydd y cyfarfod yn Ebrill yn trafod swyddi Cyfarwyddwyr/Dirprwy Gyfarwyddwyr a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

8.3 Rhoes David Richards y newyddion diweddaraf am y Rhaglen Ddeddfwriaeth a dweud bod cyd-flaenoriaethau wedi cael eu trafod yn ddiweddar yn y Cabinet, roedd y trafodaethau yn y Cabinet yn canolbwyntio'n fawr ar adnoddau ychwanegol. Dywedodd ymhellach fod Bil y Gymraeg wedi cael ei derfynu.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Dim

**Camau gweithredu'n codi yng nghyfarfod y Bwrdd, 22 Chwefror 2019.**

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1:** Caiff diweddariad ar y cynnydd yn y cyllid ar gyfer costau pensiwn ei ddarparu yn y Bwrdd nesaf. | Gawain Evans | Wedi dod i ben – Bydd Gawain yn rhoi diweddariad llafar yn y cyfarfod |

| | | |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 2:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gytuno â'r Swyddog Gwella Risg ar amlder a natur trafodaethau yn y dyfodol gan y Bwrdd am risg. | Helen Morris/Ysgrifenyddiaeth | Ar y gweill |
| **CAM GWEITHREDU 3:** Helen Morris i adolygu'r llinell amser i sicrhau bod y dyddiadau allweddol yn adlewyrchu brys y gwaith hwn. | Helen Morris | Ar y gweill |
| **CAM GWEITHREDU 4:** Helen i drafod y defnydd o'r labordy dysgu gyda Natalie Pearson. | Helen Morris | Ar y gweill |